

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 18 Hydref 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanydy CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr J Bailey, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd R Lewis

Y Cyngorydd J James
Y Cyngorydd W Lewis

102 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D. Grehan a J. Harries.

103 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**104 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

105 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

106 COFNODION

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2018 yn rhai cywir.

107 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

108 CAIS: 18/0067

Dymchwel neuadd yr efengyl bresennol (D1) ac adeiladu adeilad deulawr yn ei le i ddarparu ar gyfer swyddfa B1 ar y llawr gwaelod gyda fflat hunangynhwysol un ystafell wely ar y llawr cyntaf (cynlluniau diwygiedig a disgrifiad wedi'u derbyn 13/03/18, adroddiad ecoleg wedi'i dderbyn 22/08/18, Asesiad Risg Cloddio Glo wedi'i dderbyn 04/09/18), Man Addoli, Ffordd Caerdydd, Glan-y-Llyn, Ffynnon Taf.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Antony Bond (Ymgeisydd)
- Mr Nathan Meredith (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mrs Anne Bond (Cefnogwr) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn dymuno gwneud hynny.

Arferodd yr Ymgeisydd, Mr Antony Bond, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

109 CAIS: 18/0982

Adeiladu pwll, Melin y Cwm, Heol Ffrwd Philip, Efail Isaf, Pontypridd.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Mr Richard Frost (Asiant)

- Mr Richard Withers (Gwrthwynebydd)

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr Powell (Ymgeisydd) a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais yn bresennol i wneud hynny.

Arferodd yr Asiant, Mr Richard Frost, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol y Cynghorydd J. James, nad yw'n aelod o'r pwyllgor, am y cais a nododd ei bryderon ynglŷn â chadernid yr ymylon a'r cynnig i ymdrin â hyn o dan Amod 1, sydd wedi'i amlinellu yn yr adroddiad.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

110 CAIS: 18/0187/10

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi datblygiad newydd o 15 o fflatiau a gwaith cysylltiedig. Empire Garage, Heol Glan-elái, Tonysguboriau, Pont-y-clun, CF72 8HY.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Ms Julie James (Gwrthwynebydd) ar ran Mrs Geraldine Watkins (Gwrthwynebydd)
- Mrs Meryl Swales (Gwrthwynebydd)
- Mr Richard Wilkins (Gwrthwynebydd)

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Mr Wilkins, a oedd yn nodi ei bryderon ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Yn unol â Chofnod Rhif: 40 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 19 Gorffennaf 2018, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 31 Gorffennaf 2018 mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymhell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a chyfeiriodd at adran 3.7 yr adroddiad, gan nodi na fyddai'r datblygwr yn cael caniatâd i ddarparu'r llwybr cerdded gofynnol ar y ffordd sy'n bodoli eisoes. Yn hytrach, byddai angen iddo ddarparu hyn ar yr eiddo ei hun.

Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â'r cynlluniau a gafodd eu darparu, a chadarnhaodd y swyddog fod yr wybodaeth am y llwybr a'r manau sbwriel ddim wedi'i diweddarau.

Gan ystyried y manylion uchod ac yn dilyn sgwrs hir, **PENDERFYNODD** yr Aelodau ohirio'r penderfyniad ynglŷn â'r cais tan un o gyfarfodydd eraill y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol. Nod hyn oedd sicrhau bod modd cynnal rhagor o drafodaethau rhwng y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion

Cynllunio a'r datblygwr ynglŷn â dyluniad a maint y datblygiad arfaethedig a rhoi cyfle i swyddogion ddiweddarau'r cynlluniau er mwyn helpu'r Aelodau i ystyried a gwneud penderfyniad am y cais.

(Nodwch: Cafodd cynnig i wrthod y cais ei dynnu'n ôl gyda chaniatâd y Pwyllgor)

111 CAIS: 18/0209

Arena Farchogaeth Dan Do i'w defnyddio yn unig gyda'r iard geffylau bresennol (rhan ôl-weithredol), Marchdy a Chartref, Fferm Craig yr Allt, Uplands, Nantgarw, Ffynnon Taf.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

112 CAIS: 18/0856

Gosod pont droed newydd i gerddwyr ar draws Afon Taf, gan gysylltu Parc Ynysangharad â Safle Ailddatblygu Canolfan Dyffryn Taf (Cyfeirnod Caniatâd: 17/0793/08). Mae'r cynigion yn cynnwys dymchwel yr hen ystafelloedd newid (wrth ymyl safle'r hen ganolfan ddydd) a symud y ramp cerbyd presennol i'r ardal barcio anffurfiol is, hen Ganolfan Siopa Dyffryn Taf, Stryd Taf Pontypridd.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

113 CAIS: 18/0909

Cyfleuster parcio a theithio arfaethedig yn Abercynon. Byddai'r cyfleuster yn gysylltiedig â Gorsaf Drenau Abercynon, a byddai'n creu 311 o lefydd parcio oddi ar y stryd. Byddai'r gwaith yn cynnwys cau dwy gyffordd tua'r gorllewin, a newidiadau i'r gyffordd tua'r dwyrain oddi ar ffordd fynediad gyfredol y parc busnes. Tir ym Mharc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, Abergennar.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol R. Lewis, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor, gan y Pwyllgor, gan roi gwybod i'r Aelodau am y diwygiadau canlynol i'r Amodau:

- Amod 6 – Y dylai'r cyfeiriad at Amod 4 gael ei newid at Amod 5 ac felly, y dylai'r Amod ddarllen fel hyn (dydy'r cais gwreiddiol ddim ar gael yn Gymraeg):
"The development hereby permitted shall not be brought into beneficial use until the measures approved in the scheme referred to in Condition 5 have been implemented and a suitable validation report of the proposed scheme is submitted and approved by the Local Planning Authority. Any

validation report shall be carried out by a competent person.

Reason: In the interest of health and safety and environmental amenity and so as to accord with Policy AW10 of the Rhondda Cynon Taf Local Development Plan.”

- Condition 9 – Mae'r Swyddogion Cynllunio yn fodlon i nwyddau sy'n rhan o'r datblygiad gael eu cludo ar ddyddiau Sul ac ar Wyliau'r Banc, felly dylai'r Amod ddarllen fel hyn (dydy'r cais gwreiddiol ddim ar gael yn Gymraeg):
“HGVs used during construction shall be restricted to 09:00am to 16:30pm all week, unless otherwise agreed in writing with the Local Planning Authority.
Reason: In the interests of the safety and free flow of traffic, in accordance with Policy AW5 of the Rhondda Cynon Taf Local Development Plan.”

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio yn amodol ar y diwygiadau i'r Amodau wedi'u nodi uchod.

114 CAIS: 18/0943

2 ffenestr gromen yng nghefn anecs mam-gu, 17 Clos Afon Dâr, Gadlys, Aberdâr.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

115 CAIS: 18/0982

Amrywio Amod 1 Cais 17/1071/15 i ymestyn y caniatâd dros dro presennol ar gyfer y portacabins er mwyn iddyn nhw barhau i fod yno am 24 mis arall, gan ddod i rym o 23 Hydref 2018. Meddygfa Heol Caerdydd, 8 Heol Caerdydd, Aberpennar.

(Nodwch: Ar yr adeg yma, dyweddodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, J. Bonetto, fod ganddi hi fuddiant personol yn y cais uchod. "Roeddwn i yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned pan ddaeth y Bwrdd Iechyd yno i roi'r newyddion diweddaraf am feddygfeydd, ac roedd meddygfa Aberpennar yn un o'r rheiny. Dydw i ddim yn credu bod fy muddiant personol yn peri rhagfarn am nad oedd gen i farn bersonol am y cais yn y cyfarfod, felly byddaf yn cymryd rhan yn y drafodaeth am yr eitem yma.")

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau ohirio'r penderfyniad ynglŷn â'r cais tan un o gyfarfodydd eraill y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol. Nod hyn yw galluogi'r ymgeisydd i gyflwyno adroddiad cynnydd clir i'r Pwyllgor, yn ogystal â chynllun prosiect ar gyfer darparu'r Ganolfan Iechyd Sylfaenol yn Aberpennar. Bydd hyn yn galluogi'r Pwyllgor i benderfynu a yw hi'n briodol i ganiatáu estyniad pellach i'r caniatâd dros dro ai peidio, a sicrhau bod y datblygiad newydd ym maes gofal iechyd yn gwneud cynnydd er budd y trigolion lleol.

116 CAIS: 18/0350

Amrywio Cytundeb Adran 106 wedi'i ddyddio 24 Mawrth, 2014 yn ymwneud â thir ym Mharc Eirin, Tonyrefail.

Dywedodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu wrth yr Aelodau bod rhagor o drafodaethau wedi'u cynnal ers llunio'r adroddiad, a hynny ynglŷn â'r Amrywiad arfaethedig i Adran 106 ac y byddai hi'n briodol, o dan yr amgylchiadau, i ohirio proses ystyried y mater fel bod modd cyflwyno cynllun sydd wedi'i diweddarau i'r Aelodau eu hystyried.

Yn dilyn cais y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu, **PENDERFYNODD** yr Aelodau ohirio'r penderfyniad ynglŷn â'r cais tan un o gyfarfodydd eraill y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol. Nod hyn yw galluogi'r swyddogion i gyflwyno'r cais diweddaraf i'r Aelodau ei ystyried.

117 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 7 Medi 2018 a 5 Hydref, 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.45 pm

Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.